Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 24 Ionawr 2017

Aelod / Swyddog Arweiniol: Cynghorydd Hugh Irving/Nicola Stubbins

Awdur yr Adroddiad: Nicola Stubbins /Angela Loftus

Teitl: Newidiadau i'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr

## 1. Beth yw cynnwys yr adroddiad?

1.1. Mae'r adroddiad yn amlinellu newidiadau i'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft 2016 ar gyfer Sir Ddinbych sy'n ystyried yr anghenion posibl yn y dyfodol o ddarpariaeth llety Sipsiwn a Theithwyr preswyl a theithiol. Cymeradwywyd yr asesiad drafft gwreiddiol i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cabinet ar 16 Chwefror 2016.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Daeth asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi anghenion, yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

2.2 Cyflwynwyd asesiad 2016 Sir Ddinbych i Lywodraeth Cymru cyn y dyddiad terfyn 26 Chwefror, 2016. Fodd bynnag, cafwyd cais am eglurhad pellach ar nifer o bwyntiau cyn y gellir ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Gweinidog. Yn ogystal, mae anghenion yr asesiad i'w newid yn dilyn gwybodaeth ychwanegol ac eglurhad ychwanegol ar amgylchiadau'r unigolion yn cael ei adnabod.

2.3 Mae'r adroddiad o ddrafft diwygiedig Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych 2016 wedi'i atodi fel Atodiad 1. Mae'r diwygiadau allweddol yn berthnasol i'r anghenion posibl am safle preswyl yn Sir Ddinbych a'r dull tuag at ddarpariaeth deithiol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Yr argymhelliad yw cymeradwyo newidiadau i ddrafft Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys gofynion ar gyfer:

- a) safle preswyl i Sipsiwn a Theithwyr yn Sir Ddinbych gyda 6 llain i fodloni anghenion aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y Sir.
- b) safle teithiol gyda 4-5 llain ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr sy'n teithio drwy'r Sir.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr, a'r ddyletswydd i ddarparu safleoedd lle mae'r asesiad yn nodi'r anghenion, yn ofynion statudol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Y gwahaniaeth allweddol o'i gymharu â deddfwriaeth flaenorol yw mai'r ddyletswydd yn awr yw asesu unrhyw angen a mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a nodwyd.

4.2 Mae diffiniad o 'Sipsiwn a Theithwyr' at ddibenion y broses asesu llety hwn wedi ei gynnwys yn adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Diffinnir Sipsiwn a Theithwyr fel:

(a) Unigolion gydag arferion bywyd nomadig, beth bynnag yw eu hil neu darddiad gan gynnwys: unigolion sydd, ddim ond ar sail anghenion addysg neu iechyd neu henaint eu hunain neu eu teuluoedd neu ddibynyddion, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu'n barhaol;

(b) aelodau o grŵp wedi'i drefnu o bobl sioe neu bobl syrcas teithiol (pa un ai ydynt yn teithio gyda'i gilydd fel y cyfryw ai peidio); a

(c) holl unigolion eraill gyda thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.

4.3 Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol gyflawni asesiad cyfredol erbyn 26 Chwefror 2016 a phob pum mlynedd ar ôl hynny. Cynhaliwyd asesiad 2016 ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er cyflwynwyd dogfennau ar wahân gan bob awdurdod. Cymeradwywyd yr asesiad drafft i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan y Cabinet ar 16 Chwefror 2016, a chyflwynwyd wedyn i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion deddfwriaethol.

4.4 Daeth yr Asesiad drafft a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'r casgliad canlynol:

- Anghenion amlwg am safle (safleoedd) teithiol neu fan aros yng Ngogledd y Sir o ystyried y nifer yr achosion o wersylloedd diawdurdod.
- Adnabuwyd dwy aelwyd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar hyn o bryd mewn tai (brics a morter) sydd wedi mynegi y byddai well ganddynt fyw ar safle. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth o angen uniongyrchol wedi'i ddynodi.

4.5 Yn dilyn ei gyflwyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r asesiad ac wedi gofyn am nifer o eglurhad i'w cynnwys yn yr adroddiad cyn y caiff ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth y Gweinidog. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Pwyntiau sy'n berthnasol i'r broses asesu a'r angen i ddangos trefniant cadarn. Deliwyd â hyn drwy ddiwygiadau yn yr adroddiad.
- Yr angen i fod yn fwy penodol ynghylch y ffordd y bydd darpariaeth deithiol yn cael ei fwrw ymlaen yng Nghonwy a Sir Ddinbych.
- Eglurhad pellach i pam fod y 2 aelwyd sydd yn byw mewn llety brics a morter heb gael eu tybio i fod ag 'angen', ynghyd â gwybodaeth pellach ar dyfiant aelwydydd posibl.

<u>Anghenion am leiniau preswyl</u>

4.6 Yn dilyn cyflwyniad o'r Asesiad drafft i Lywodraeth Cymru, mae gwybodaeth newydd wedi'i ganfod mewn perthynas â'r angen am leiniau preswyl. Roedd yr asesiad drafft cyntaf ym mis Chwefror 2016 wedi nodi 2 aelwyd breswyl yn Sir Ddinbych a oedd wedi mynegi bod gwell ganddynt fyw ar safle fel dewis arall i'w llety Brics a Morter presennol. Daeth yr asesiad hwn i gasgliad, er bod y teuluoedd wedi mynegi bod well ganddynt fyw ar safle, nid oedd unrhyw un o'r aelwydydd wedi mynegi'r angen am lain ar safle preswyl parhaol o fewn y sir. Fodd bynnag, cafwyd wybodaeth bellach mewn perthynas ag amgylchiadau teuluoedd sydd yn herio'r casgliad cychwynnol hwn.

4.7 Yn ogystal â'r ddwy aelwyd a nodwyd yn yr asesiad cyntaf, mae rhagor o wybodaeth wedi'i gael mewn perthynas â thair aelwyd arall o'r un grŵp teulu estynedig, roedd dwy aelwyd yn byw mewn carafán ar safleoedd diawdurdod yn Sir Ddinbych, ac un yn byw ar hyn o bryd mewn llety Brics a Morter. Hefyd, mae posibl bod un aelwyd sy'n dod i'r amlwg a fydd angen llety yn y blynyddoedd nesaf. Yn dilyn trafodaeth bellach gyda phob aelwyd, mae'n amlwg bod ganddynt draddodiad cryf i fyw mewn cartrefi symudol a chyda cysylltiad lleol gyda Sir Ddinbych.

4.8 Mae'r dystiolaeth ychwanegol a newydd yn dynodi bod angen safle preswyl parhaol i bum llain yn Sir Ddinbych i ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr sydd yn byw yn y sir ar hyn o bryd, gydag un llain ychwanegol i ddiwallu'r anghenion o aelwyd sy'n dod i'r amlwg yn y 1-2 blynedd nesaf.

<u>Anghenion am safle (safleoedd) teithiol</u>

4.9 Roedd yr Asesiad drafft yn nodi angen eglur am safle teithiol neu fan aros yng Ngogledd o'r Sir i ddarparu safle i Deithwyr sydd yn symud, neu'n teithio drwy'r Sir. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud cais am eglurhad pellach ynghylch sut y byddant yn mynd i'r afael â'r ddarpariaeth deithiol. Mae 2 opsiwn posibl ar gyfer bodloni'r angen hwn:

- Safle tramwy/ man aros cyfun yn gwasanaethu Conwy a Sir Ddinbych gyda 8 – 10 llain.
- Dau safle teithiol/ mannau aros llai, un ym mhob Sir gyda 4-5 llain.

I atgoffa Aelodau bod mannau aros yn lleoliadau a gytunwyd ar gyfer gwersylloedd i'w goddef am dymor byr a lle gellir darparu cyfleusterau dros dro. Nid yw Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i sefydlu mannau aros. Mae safleoedd teithiol yn gyfleusterau parhaol wedi'u llunio ar gyfer defnydd dros dro gan breswylwyr, fel arfer o fewn bloc amwynder cymunedol. Caniateir i breswylwyr unigol breswylio ar y safle am hyd at 3 mis ar y tro. Gellir darparu'r safleoedd hyn gyda chymorth cyllid Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr Llywodraeth Cymru, a byddai'r Awdurdodau Lleol yn gallu codi tâl i breswylwyr am rhent wythnosol a thaliadau gwasanaeth. Byddai safle teithiol yn darparu llety gwell a mwy addas na man aros dros dro, ac mae trafodaethau gyda theithwyr wedi dynodi mai safle teithiol fyddai eu dewis.

4.10 Ers cyflwyno asesiad 2016, mae'r swyddogion ar y cyd wedi bod yn ymchwilio'r ymarferoldeb o fabwysiadu dull rhanbarthol i ddatblygu safle teithiol gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r broblem gyda darpariaeth ar y cyd yw cyfyngiadau

pwerau heddlu i symud gwersylloedd diawdurdod. Mae gan yr Heddlu bwerau dan adran 62 A-E Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 i gyfarwyddo tresmaswyr a theithwyr i adael tir pan mae llain addas yn rhywle arall o fewn yr un ardal awdurdod lleol. Felly petai safle teithiol 'cyfun' yn cael ei ddarparu yn Sir Conwy yn unig, ni fyddai gwersylloedd diawdurdod o fewn Sir Ddinbych yn gallu symud yno. Byddai darparu safle teithiol ym mhob un Sir yn caniatáu i'r pwerau hyn gael eu defnyddio.

4.11 Er mwyn diwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr, argymhellir y dylid darparu safle teithiol gyda 4-5 llain yn Sir Ddinbych, fodd bynnag argymhellir y dylai'r safle preswyl gael ei ddarparu fel blaenoriaeth, cyn y darpariaeth teithiol.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

4.12 Os bydd y Cabinet yn ei gymeradwyo, bydd yr Adroddiad Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 Sir Ddinbych yn cael ei ail-gyflwyno i Lywodraeth Cymru a bydd angen cymeradwyaeth y Gweinidog. Dan ddarpariaethau Deddf Tai (Cymru), bydd gofyn i'r Cyngor fynd i'r afael ag unrhyw anghenion llety a nodwyd.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Y Blaenoriaethau Corfforaethol perthnasol yw:

- Mae pobl ddiamddiffyn yn cael eu diogelu ac yn gallu byw mor annibynnol â phosibl
- Sicrhau mynediad at dai o ansawdd da

6. **Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Roedd cost yr Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft wedi'i rannu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ac wedi ei gynnwys yn y cyllidebau cyfredol. Mae costau'r gwaith ychwanegol a gyflawnwyd wedi eu bodloni o adnoddau cyfredol. Bydd angen cyflawni ymchwiliad pellach i unrhyw gostau wedi i benderfyniad ei wneud ynghylch a oes angen darpariaeth sipsiwn a theithwyr neu beidio. Gall Awdurdodau Lleol gael mynediad at gyllid gan Lywodraeth Cymru tuag at gostau datblygu Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr os oes angen.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawr lwytho adroddiad Asesiad o Effaith ar Les o'r wefan a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.**

Cafodd yr effaith cyffredinol ei ystyried yn Gadarnhaol o ran Iechyd, Cydlyniant Cymunedol, Diwylliant/ Iaith Gymraeg, Cydraddoldeb a Chyfrifoldeb Byd-eang; Niwtral mewn perthynas â Ffyniant a Gwydnwch. Ni adnabuwyd unrhyw effeithiau Negyddol.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Tra datblygwyd yr asesiad, cyflawnwyd ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau ac mae'r rhain yn cael eu hamlinellu yn yr Asesiad.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae cyfran Sir Ddinbych o gostau'r Asesiad Llety Sipiwn a Theithwyr wedi eu cynnwys o fewn y gyllideb refeniw gyfredol yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Os cytunir, maes o law, bod angen gwneud darpariaeth Sipsiwn a Theithwyr o fewn y sir, yna bydd angen gwneud gwaith manwl ychwanegol i sicrhau costau amcan a'r opsiynau i ariannu'r gwariant, gan sicrhau bod holl adnoddau cyllid allanol yn cael eu

mwyhau. Bydd rhaid i'r cynigion terfynol fynd drwy proses cymeradwyo arferol y Cyngor.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Bydd gwersylloedd anghyfreithlon ar dir preifat a thir y Cyngor yn parhau os na chaiff anghenion o ran tai i Sipsiwn a Theithwyr eu diwallu. Bydd datrys y mater o ran gwersylloedd anghyfreithlon yn arwain at gostau i'r awdurdod. Byddai darparu llety preswyl a theithiol yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem hon.

10.2 Efallai ni fydd Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr drafft diwygiedig ac yn gofyn am ragor o waith.

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Deddf Tai (Cymru) 2014 – rhan 3